# Awdurdod Parc Cenedlaethol

## 26 Mawrth 2025

**Yn bresennol (o bell)**
Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Cynghorydd M Bowen, Cynghorydd T Evans, Cynghorydd C George, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Cynghorydd M James, Mr GA Jones, Dr R Plummer, Cynghorydd B Price, Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, Cynghorydd A Tinley, Cynghorydd V Thomas, Cynghorydd M Wiggins a’r Cynghorydd C Williams BEM.

**Hefyd yn bresennol:**
Lynwen Davies (Cyfieithydd ar y Pryd), Catrin Evans (Pennaeth Cyllid a Chodi Arian), Emma Gladstone (Rheolwr Polisi Strategol), Richard Griffiths (Swyddog 151), Georgia Jones (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd), Tegryn Jones (Prif Weithredwr), Michael Kent (Swyddog Monitro), Gayle Lister (Swyddog Cynllunio, Polisi Strategol), Caroline Llewellyn (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Jessica Morgan (Pennaeth Datgarboneiddio), Sara Morris (Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu) a Michel Regelous (Swyddog Cynllun Rheoli a Pholisi Morol).

[Ymunodd y Cynghorydd A Tinley â’r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar adroddiad 08/25, Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2025/26.]

[Cyfarfod Ar-lein, 10.00am – 1:30pm]

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Mrs J James a'r Cynghorydd SL Hancock MBE.

**2. Datgan Buddiannau**
Gwnaeth Dr R Plummer ddatganiad cyffredinol fel Aelod o Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru a Chadeirydd ei Bwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, ac fel Uwch Aelod Annibynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus. Datganodd y Cynghorwyr V Thomas ac M Wiggins fuddiant yn adroddiad 11/25, Cynllun Rheoli Cei Cresswell. Gwnaeth y Cynghorydd B Price ddatganiad o fuddiant yn adroddiad 14/25, Datganiad o Eglurhad ar y potensial o weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ar Wersylla a Charafanau.

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Chwefror 2025 i’w cadarnhau a’u dilysu.

Tynnodd Aelod sylw at deitl anghywir yng nghofnod 3, a chadarnhaodd y dylai ddarllen 'Dr M Havard'.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd S Skyrme-Blackhall, **penderfynwyd** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 05 Chwefror 2025 yn amodol ar y newid uchod.

**4. Log Gweithredu a Materion yn Codi**

Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod yr Adolygiad Cyflogau a Graddfeydd yn dod i ben, ac y byddai'r adolygiad yn cael ei gwblhau yn y dyfodol agos.

O ran cam gweithredu 982, dywedwyd bod y rhanddeiliaid wedi cyfarfod i gytuno ar gylch gorchwyl y Bwrdd Cynghori Strategol fyddai'n gyfrifol am gyflwyno unrhyw gamau gweithredu i Croeso Sir Benfro. Felly, gellid tynnu'r cam hwn oddi ar y log gweithredu.

O ran cam gweithredu 1036, gofynnodd Aelod am gael gweld y fersiwn terfynol o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ar gyfer yr Ymgynghoriad ar Wersylla a Charafanau, a nodwyd hyn gan y Prif Weithredwr.

**Nodwyd.**

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi mynychu'r digwyddiadau/ cyfarfodydd canlynol:

- Y Cyd-Bwyllgor Corfforaethol lle trafodwyd y Cynllun Corfforaethol cyfredol, a gwneud newid i'r Datganiad Sero Net.
- Fforwm Gwledig y WLGA lle trafodwyd y maniffesto drafft.
- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr HDR Consulting a Llywodraeth Cymru ynghylch prosiect Llywodraeth Cymru ar adolygu'r trefniadau ar gyfer gwerthuso Aelodau ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru.
- Brecwast Siambr Fasnach Dinbych-y-pysgod lle cafodd myfyrwyr o Ysgol Greenhill y cyfle i ymgysylltu â busnesau lleol i gael cipolwg gwerthfawr ar fyd gwaith.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y tîm ar lansio Tirlun, porth ar-lein oedd yn cynnwys ystod eang o adnoddau dysgu â'r nod o ymgorffori dysgu awyr agored a dysgu am yr awyr agored mewn amrywiaeth o ffurfiau.

Llongyfarchodd y Cadeirydd y Tîm yng Nghastell Caeriw ar gael eu henwebu yn Atyniad Gorau yn y Gwobrau Twristiaeth Cenedlaethol.

Manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch a diolch i Owen Duffy, Warden yr Awdurdod, sydd wedi gweithio i'r Awdurdod am 40 mlynedd ac

sydd bellach yn aelod o staff yr Awdurdod sydd wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf.

Dywedodd y Dirprwy Gadeirydd bod Archwilwyr mewnol yr Awdurdod yn ceisio awgrymiadau am bynciau i'w harchwilio yn y dyfodol, a gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno eu hawgrymiadau.

**Nodwyd.**

**6. Adroddiadau o gyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau eu hystyried:

i) Y Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 29/01/2025
ii) Y Pwyllgor Adolygu Gweithredol a gynhaliwyd ar 18/12/2024
iii) Y Pwyllgor Gwasanaethau Pobl a gynhaliwyd ar 15/01/2025

**Penderfynwyd** derbyn cofnodion y Pwyllgorau uchod.

**7. Y Cynllun Partneriaeth**

Cyflwynodd y Swyddog Cynllun Rheoli a Pholisi Morol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth derfynol yr Aelodau i Gynllun Partneriaeth y Parc Cenedlaethol 2025-2029 ac i'r asesiadau effaith cysylltiedig. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth gefndir, manylion yr ymgynghoriad, trosolwg o'r newidiadau allweddol, copi o'r Cynllun diwygiedig, yr asesiadau effaith perthnasol, a'r camau nesaf.

Nododd Aelod y byddai'r Rhinweddau Arbennig a glustnodir yn y Cynllun yn dod yn ystyriaethau perthnasol yn y cyd-destun Cynllunio, ac awgrymwyd y dylid tynnu sylw Cyfreithiwr yr Awdurdod at yr ystyriaethau hyn i'w cynnwys yn ei Adroddiad a gyflwynir i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu. Nododd y Swyddog yr awgrym hwn.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chwmpas ac uchelgeisiau'r Cynllun, a dywedodd Aelod nad oedd yn glir pa elfennau y byddai'r Awdurdod yn atebol amdanynt. Cadarnhaodd y Swyddog y byddai'r Cynllun Partneriaeth yn cynnwys ystod o randdeiliaid yn yr ardal, a bod Cynllun Corfforaethol yr Awdurdod yn amlinellu'r elfennau o'r Cynllun Partneriaeth y byddai'r Awdurdod yn atebol amdanynt. Awgrymodd yr Aelodau y dylid cyfeirio at Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod yn y Cynllun Partneriaeth.

Nodwyd bod cyfeiriad at y rhanddeiliaid yn y Cynllun Partneriaeth, a mynegodd Aelod bryder y gallai'r rhestr fod yn anghyflawn. Awgrymwyd cynnwys geiriad oedd yn egluro nad oedd y rhestr yn oll-gynhwysol, a nodwyd hyn gan y Swyddog.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd**:

a) Nodi'r adroddiad cryno ar yr ymgynghoriad ar y Cynllun Partneriaeth drafft 2025-2029.

b) Cymeradwyo testun terfynol y dogfennau canlynol:
   i. Y Cynllun Partneriaeth.
   ii. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb.
   iii. Asesiad o’r Rheoliadau Cynefinoedd.
   iv. Arfarniad o Gynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol.
   v. Asesiad o Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
   vi. Asesiad o’r Effaith ar y Gymraeg.

c) Rhoi cyfrifoldeb dirprwyedig i’r Swyddogion am y tasgau canlynol:
   i. Gwneud unrhyw newidiadau pellach y cytunwyd arnynt gan yr Aelodau yn y cyfarfod.
   ii. Cynnwys rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet.
   iii. Gwneud unrhyw fân newidiadau sy’n ofynnol (e.e. cywiro gwallau teipio neu ddiweddaru data, gwneud y cyfeirnodau gweithredu mewn trefn olynol).
   iv. Paratoi'r testun i'w gyhoeddi ar-lein (gan gynnwys HTML hygyrch a fformat dogfen gludadwy hygyrch).
   v. Parhau i ddatblygu Grŵp Partneriaeth y Cynllun.

**8. Cynllunio Cyllideb Ddrafft 2025/26**

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian adroddiad oedd yn amlinellu’r cyllidebau refeniw a chyfalaf drafft ar gyfer 2025/26, a’r rhagolygon ar gyfer 2026/27 i 2028/29, yr ardoll drafft 2025/26 ar Gyngor Sir Penfro (CSP), y dangosyddion darbodus ar gyfer y rhaglen gyfalaf, a strategaeth fuddsoddi, datganiadau polisi cronfeydd wrth gefn a rheoli’r trysorlys ar gyfer 2025/26.

Dywedwyd bod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 a gyhoeddwyd fis Rhagfyr 2024 wedi nodi y byddai Grant y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn 2025-26 yn cynyddu 5%. Roedd yr Awdurdod yn parhau i wynebu cynnydd sylweddol mewn costau oherwydd pwysau chwyddiant, effaith cyflogau a graddfeydd, ynghyd â llai o incwm craidd mewn termau real. Roedd y ddau ffactor hyn wedi rhoi'r Awdurdod yn y sefyllfa anodd o osod diffyg o £566k yn y gyllideb weithredol ar gyfer 2025-26. Fodd bynnag, roedd sefyllfa arian wrth gefn yr Awdurdod yn glustog i fynd i'r afael â'r diffyg hwn yn y tymor byr. Nodwyd hefyd bod y rhagolygon refeniw y tu hwnt i 2025-26 yr un mor heriol. Byddai angen rheoli'r sefyllfa ariannol felly, lle bo'n briodol, drwy

roi'r gorau i rai gweithgareddau, gwell effeithlonrwydd, arbedion costau, adolygu cyfleoedd i greu incwm, a cheisio ffynonellau o gymorth grant.

Eglurodd y Swyddog bod y gyllideb wedi'i gosod yng nghyd-destun ansicrwydd byd-eang, a bod y darlun ychydig yn well na'r hyn a amlinellwyd yn y gweithdy ar y gyllideb a gynhaliwyd i'r Aelodau fis Rhagfyr 2024 gan fod LlC wedi cadarnhau y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei ddyfarnu i'r Awdurdod, ond taliadau untro oedd y rhain. Gellid gweld felly, o gymryd bod cyllidebau llinell wastad yn parhau, y rhagfynegir y byddai'r diffyg yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac y bydd camau yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn o fewn y chwe mis nesaf. Ychwanegodd y Swyddog bod yr Awdurdod angen setliadau ariannol dros y tymor hir gan LlC er mwyn gallu cynllunio am y dyfodol.

Nodwyd bod yr ardoll drafft 2025/26 ar Gyngor Sir Penfro (CSP) wedi'i gytuno yng nghyfarfod yr Awdurdod fis Chwefror, er y byddai'r cynnydd arfaethedig yng Ngrant y Parc Cenedlaethol am y flwyddyn sydd i ddod yn golygu bod hyn yn debygol o gynyddu ychydig. Er gwaethaf y cynnydd tebygol yn y Grant, nodwyd bod cyfanswm y gostyngiad rhwng 2010/11 a 2024/25 mewn termau arian parod wedi bod yn £285k i bob pwrpas flwyddyn ar ôl blwyddyn. Hefyd pan ddefnyddir y mynegai prisiau defnyddwyr, mae'r gostyngiad cyffredinol mewn termau real ers 2010/11 yn cyfateb i 49.3% neu tua £2m.

Roedd yr adroddiad yn nodi'r rhaglen Gyfalaf ddrafft, a nodwyd nad oedd y rhaglen Gyfalaf wedi newid fawr ddim ers y flwyddyn flaenorol i ganiatáu gallu cyflawni'r rhwymedigaethau presennol. Awgrymodd Aelod y dylid blaenoriaethu prosiectau cynhyrchu incwm/ buddsoddi i arbed yn y dyfodol.

Mewn ymateb i gostau gweithredu uwch, cynigiwyd cynnydd yng nghronfeydd wrth gefn cyffredinol yr Awdurdod. Roedd disgwyl i'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ostwng erbyn diwedd y flwyddyn. Nododd Aelod bod nifer y staff wedi cynyddu, a chadarnhawyd bod hyn oherwydd prosiectau a ariannwyd gan grant. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Swyddog hefyd bod cynllunio senarios yn ôl y rhagdybiaeth o godiad cyflog o 2% wedi digwydd gan fod hwn yn un o'r meysydd o ansicrwydd.

Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo'r gyllideb ddrafft 2025/26 mewn egwyddor, yn amodol ar nodi nad oedd yr amcangyfrif o Grant y Parc Cenedlaethol/ Ardoll wedi'i gadarnhau eto.
b) Nodi'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2025/26 i 2028/29.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd**:

a) Mabwysiadu'r dangosyddion darbodus fel y'u cyflwynwyd.
b) Cymeradwyo’r cronfeydd ariannol wrth gefn a’r strategaeth fuddsoddi a’r polisïau rheoli’r trysorlys ar gyfer 2025/26.

[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11:26am a 11:35am]

**9. Polisi a Strategaeth Rheoli Asedau**

Cyflwynodd y Pennaeth Datgarboneiddio adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i’r Polisi a Strategaeth Rheoli Asedau. Roedd yr adroddiad yn amlygu’r negeseuon allweddol a’r wybodaeth gefndir.

Holodd Aelod a fyddai'r ddogfen yn gymorth i’r Aelodau i flaenoriaethu asedau pe cyfyd yr angen yn y dyfodol, a chadarnhaodd y Swyddog bod y tîm yn datblygu matrics sgorio i'r diben hwn.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd**:

a) Cymeradwyo'r Polisi Rheoli Asedau.
b) Cymeradwyo'r Strategaeth Rheoli Asedau.

**10. Polisi Gorfodaeth**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i fabwysiadu'r polisi wedi'i ddiweddaru ar faterion Gorfodaeth a Chydymffurfiaeth Cynllunio. Roedd yr adroddiad yn manylu ar y negeseuon allweddol, gwybodaeth gefndir, manylion am y broses ymgynghori, a chyd-destun y polisi strategol.

Dywedodd yr Aelodau pa mor ddefnyddiol fu'r gweithdy yn ddiweddar o ran amlinellu gwaith y Tîm Gorfodi ac egluro rhai o'r heriau a wynebir ganddynt. Nodwyd ganddynt bod rhai sylwadau manwl wedi’u gwneud ar y polisi, a chynigiwyd bod y polisi yn cael ei fabwysiadu cyn belled ag y dirprwyir awdurdod i’r Swyddogion gynnwys y cywiriadau a'r diwygiadau hynny.

Ar gynnig Dr R Plummer, a eiliwyd gan Dr M Havard, **penderfynwyd** mabwysiadu'r Polisi Gorfodaeth a Chydymffurfiaeth Cynllunio wedi'i ddiweddaru, yn amodol ar gynnwys y mân gywiriadau a diwygiadau a awgrymwyd.

**11. Cynllun Rheoli Cei Cresswell**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i’r Cynllun drafft ar Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell ar gyfer ymgynghoriad. Roedd yr adroddiad yn

manylu ar y negeseuon allweddol, gwybodaeth gefndir, y cefndir cyfreithiol, a manylion y rhaglen.

Bu’r Aelodau yn trafod y sawl cam sydd i’r ymgynghoriad, a chytunwyd y byddai angen i gyfathrebu fod yn glir i sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall bod hwn yn gam ar wahân o'r ymgynghoriad ac y byddai gofyn cael sylwadau pellach. Nododd y Swyddog yr awgrym hwn.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd** cymeradwyo’r fersiwn drafft o’r Cynllun Arfarnu a Rheoli Ardal Gadwraeth Cei Cresswell ar gyfer ymgynghori.

**12. Cynllun Datblygu Lleol 2 - Adroddiad Adolygu**

Cyflwynodd y Rheolwr Polisi Strategol adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i'r Adroddiad Adolygu oedd i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru (LlC). Roedd yr adroddiad yn amlygu’r negeseuon allweddol, gwybodaeth gefndir, manylion yr ymgynghoriad, a manylion y rhaglen. Daeth yr Adroddiad Adolygu i'r casgliad, oherwydd bod ystod o faterion wedi'u clustnodi, bod gweithdrefn lawn o adolygu yn cael ei argymell fyddai'n arwain at baratoi cynllun o’r newydd, i'w alw yn CDLl 3. Byddai Cytundeb Cyflawni yn cael ei baratoi wedyn fyddai'n cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Awdurdod yn y dyfodol i'w gytuno. Nodwyd y byddai CDLl2 yn parhau mewn grym hyd nes y byddai CDLl3 wedi'i fabwysiadu.

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd M Bowen, **penderfynwyd**:

a) Nodi'r adroddiad ymgynghori ar yr adroddiad adolygu.
b) Bod yr adroddiad adolygu i’w gymeradwyo i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**13. Ymateb i’r Fferm Ynni Gwynt Arnofiol Llŷr ar y Môr**

Cyflwynodd y Pen Swyddog Cynllunio (Polisi Strategol) adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i’r egwyddorion yn ymateb yr Awdurdod Parc Cenedlaethol i'r ymgynghoriad ar y caniatâd sy’n ofynnol ar gyfer prosiect Fferm Wynt Arnofiol Llŷr ar y Môr a bod yr ymateb yn cael ei gyflwyno i PEDW. Roedd yr adroddiad yn amlygu’r negeseuon allweddol ac yn cynnwys gwybodaeth gefndir a chyfreithiol.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod 'Gorwelion di-dor' wedi'u clustnodi yn rhinwedd arbennig o'r Parc yng Nghynllun Partneriaeth yr Awdurdod, ac awgrymwyd bod hyn yn cael sylw yn ymateb yr Awdurdod i'r ymgynghoriad. Nodwyd yr awgrym gan y Swyddog.

Gofynnwyd am i grynodeb o sefyllfa'r Awdurdod gael ei gynnwys ar ddechrau'r ymateb, a nodwyd hynny gan y Swyddog. Hefyd gofynnwyd

am i'r Swyddogion drafod ymateb yr Awdurdod gyda sefydliadau partner megis Cyfoeth Naturiol Cymru a'r RSPB i sicrhau y byddai eu hymatebion hwy yn amlygu'r effeithiau ecolegol. Cafwyd dadl ynglŷn â sefyllfa'r Awdurdod, a dywedodd rhai Aelodau eu bod yn dymuno gwrthwynebu'r cais yn hytrach na mynegi pryder ynghylch yr effeithiau pe na bai modd lliniaru effeithiau'r Fferm Wynt. Nodwyd y byddai Gweithdy i'r Aelodau ar y pwnc ffermydd gwynt ar y môr o gymorth, a nodwyd hyn.

Cynigiodd Dr Heath Davies, ac eiliwyd gan y Cynghorydd Price, bod adroddiad y Swyddog yn cael ei ddiwygio i ddatgan bod yr Awdurdod yn gwrthwynebu'r cynnig am fferm wynt. Cariwyd y cynnig hwn.

Ar gynnig Mr Jones, a eiliwyd gan Dr Havard, **penderfynwyd** bod llunio ymateb terfynol i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn cael ei ddirprwyo'r i'r Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu, i nodi bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwrthwynebu Prosiect Fferm Wynt Arnofiol Llŷr ar y Môr.

**14. Datganiad o Eglurhad ar y Potensial o Weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ar Wersylla a Charafanau**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Lle ac Ymgysylltu adroddiad oedd yn gofyn am gymeradwyaeth yr Aelodau i gyhoeddi datganiad o eglurhad ar y bwriad i weithredu Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) ar Wersylla a Charafanau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar negeseuon allweddol a gwybodaeth gefndir.

Atgoffwyd yr Aelodau bod gwneud Cyfarwyddyd Erthygl 4 (1) a rhoi cyhoeddusrwydd i hynny i ddileu hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer 'rheol 28 diwrnod' ar wersylla, carafanau a/neu gartrefi symudol ar draws y Parc Cenedlaethol cyfan, wedi'i gymeradwyo fis Rhagfyr 2024, heb effaith yn syth. Yn unol â gofynion Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir ac ati) (Diwygio) (Cymru) 2022, roedd yr Awdurdod wedyn wedi cyhoeddi'r cyfle i gyflwyno sylwadau ffurfiol. Nodwyd y byddai gofyn i Aelodau'r Awdurdod wneud penderfyniad ffurfiol ynghylch a ddylid cadarnhau'r hysbysiad o'r Cyfarwyddyd Erthygl 4(1) ynghyd ag adroddiad llawn o'r ymgynghori, yng nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Mai 2025. Fodd bynnag, cyn y cyfarfod hwnnw roedd y Swyddogion o'r farn y byddai'n ddefnyddiol egluro'r paramedrau y byddai unrhyw Gyfarwyddyd Erthygl 4 (1) yn gweithredu o'u mewn. Roedd y datganiad eglurhad yn cynnwys enghreifftiau o ddefnydd eithriedig, ac eglurodd y Swyddog nad oedd yr Awdurdod yn dymuno cynhyrchu rhestr ddiffiniol o wahanol ddefnydd eithriedig ond yn hytrach amlinellu'r paramedrau y byddai Swyddogion yn eu hystyried wrth asesu cais.

Awgrymwyd y gallai aelodau o'r cyhoedd fod yn betrusgar i wneud cais rhag ofn y byddai caniatâd yn cael ei wrthod iddynt. Ymatebodd y Swyddog y byddai proses apelio ar gael i ymgeiswyr, fodd bynnag byddai'r Awdurdod yn edrych i drafod gyda'r ymgeiswyr i ddod o hyd i ddatrysiad lle bo modd. Byddai Gweithdy i'r Aelodau yn cael ei gynnal yr wythnos ganlynol fyddai'n gyfle i drafod nifer o'r pwyntiau a godwyd gan yr ymgynghoriad.

[Gadawodd Dr R Plummer y cyfarfod yr adeg hon o'r cyfarfod].

Ar gynnig Dr M Havard, a eiliwyd gan y Cynghorydd V Thomas, **penderfynwyd** cymeradwyo'r datganiad o eglurhad i'w gyhoeddi.

**15. Adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW).**

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad oedd yn amlinellu Adroddiad Blynyddol yr IRPW ar gyfer 2025/26, a gofynnodd am sylwadau'r Aelodau ynghylch pa swydd(i) y dylid talu Uwch Gyflog iddynt.

Ar gynnig y Cynghorydd D Clements, a eiliwyd gan y Cynghorydd M James, **penderfynwyd**:

a) Nodi Adroddiad Blynyddol IRPW ar gyfer 2025/26.
b) Talu Uwch Gyflog i'r swyddi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu.

**16. Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth yr Aelodau i ailbenodi Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau.

Ar gynnig y Cynghorydd M James, a eiliwyd gan Dr R Heath-Davies, **penderfynwyd** ailbenodi Mr Phillip Davies yn Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau am gyfnod o bedair blynedd hyd at y $6^{ed}$ o Fai 2029.

**17. Eithrio'r Cyhoedd**

Nodwyd, wrth drafod yr adroddiad canlynol, y gellid rhannu gwybodaeth oedd yn fasnachol sensitif, ac felly gofynnwyd am wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod.

Ar gynnig Dr R Heath-Davies, a eiliwyd gan y Cynghorydd James, **penderfynwyd** eithrio'r cyhoedd o'r cyfarfod gan y byddai gwybodaeth

eithriedig, fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.

18. **Diweddariad ar Adolygiad Barnwrol**
Rhoddodd y Prif Weithredwr y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch yr adolygiad barnwrol sy'n parhau o'r cais rhif NP/ 24/0198/FUL – Adeilad arfaethedig a newid defnydd i ganolfan antur awyr agored, gyda stiwdio gelf a gofod storio uwchben, a gwaith cysylltiedig – Yr Hen Ganolfan Fysiau, Trewyddel. Roedd y diweddariad yn cynnwys crynodeb o'r broses, manylion am y camau a gymerwyd hyd yn hyn, a'r camau nesaf.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o'r Awdurdod y Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 07/05/2025 heb eu diwygio. |